

Rhif: WG30301



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Crynodeb o'r ymatebion i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)  
(Diwygio) 2018.

Ionawr 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.  
This document is also available in Welsh.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	3
2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad .....	3
3. Crynodeb i'r Ymatebion .....	3
4. Rhestr o Ymatebwyr .....	6
5. Y camau nesaf.....	6

## 1. Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”), a wnaed o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (“y Ddeddf 2004”), yn darparu'r gyfundrefn reoleiddio sy'n sail i rwymedigaethau adrodd a chyfrifyddu cyrff llywodraeth leol.

Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i ystyried diwygiadau i Reoliadau 2014 er mwyn dwyn ymlaen yr amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi datganiadau o gyfrifon i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Cynigiodd hefyd ddileu'r gofyniad i ddatganiadau cronfeydd pensiwn gael eu cynnwys yng nghyfrifon y cyrff gweinyddu. Hefyd cynigiwyd newid pellach i ddileu'r gofyniad i gyrff llywodraeth leol gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd lleol.

Parodd yr ymgynghoriad am gyfnod o ddeuddeg wythnos rhwng 14 Tachwedd 2016 i 6 Chwefror 2017. Roedd ar gael ar borthol ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac fe roddwyd gwybod amdano drwy e-bost i restr ddsbarthu o randdeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys pob rhanddeiliaid sy'n ofynnol i ymgynghori â o dan adran 39 o Ddeddf 2004

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Daeth cyfanswm o 16 o ymatebion i law. Daeth ymatebion i law oddi wrth y categorïau canlynol o gyrff ac unigolion.

- Awdurdodau Lleol – 9
- Cynghorau Cymuned a Thref
- Eraill – 3 (Roedd hyn yn cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru a chyrrff cyfrifydd)

Darperir rhestr lawn o ymatebwyr yn adran 4.

Roedd fformat, lefel manylder a chynnwys yr ymatebion yn amrywio a darperir crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd uchod.

## 3. Crynodeb o'r Ymatebion

**Cwestiwn 1:** *a oes gennych unrhyw sylwadau am y cynigion i ddwyn ymlaen yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiad o gyfrifon cyrff perthnasol mwy a phwyllgorau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol?*

At ei gilydd Roedd yr ymatebion yn ffafriol i'r cynigion. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r cyflwyno graddedig yn caniatáu amser priodol i addasu i'r amserlen ddiwygiedig. Nodwyd y gallai amserlen gynharach arwain at ddibynnu ar gostau amcangyfrifedig ac y byddai angen i adnoddau archwilio digonol fod ar gael. Yn 2015 llwyddodd un awdurdod i gynnal peilot o baratoi, archwilio a chyhoeddi eu cyfrifon yn unol â'r gofyniad newydd yn yr amserlen.

Dyweddodd un awdurdod y gallai dwyn yr amserlen ymlaen gynyddu nifer y camdatganiadau sylweddol yn y cyfrifon archwiliedig ac y dylai'r amserlen ar gyfer cyhoeddi fod yn gynhwysfawr, p'un a yw'r corff yn fawr neu'n fach, er cysondeb.

Mae dau ymateb gan gyrrff proffesiynol yn credu y bydd y newidiadau y bydd angen i'r awdurdodau lleol eu gwneud i gyrraedd dyddiadau cau cynharach yn gwella eu systemau rheoli ariannol cyffredinol ac yn gwneud y datganiadau ariannol eu hunain yn fwy perthnasol i ddarllenwyr. Bydd hefyd yn golygu bod sector llywodraeth leol yn cyd-fynd â gweddill Sector Cyhoeddus Cymru a hefyd ag awdurdodau lleol Lloegr ac fe gytunwyd y bydd y dull gweithredu graddedig o gymorth,

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Caiff y rheoliadau i ddwyn yr amserlen ymlaen eu gwneud fel y'u ymgynghorwyd.

**Cwestiwn 2:** *A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad i gynnwys datganiadau cyfrifyddu ar gyfer cronfeydd pensiwn yn natganiad cyfrifon yr awdurdod gweinyddu?*

Roedd yr ymatebwyr at ei gilydd yn cytuno â'r cynnig, gyda'r sylwadau canlynol -

- Bydd angen dwyn amseriad cyfrifon y Cynllun Pensiwn ymlaen gan y bydd gwybodaeth yn cael ei chynnwys ym mhob datganiad o gyfrifon mewn perthynas â manteision diffiniedig a heb eu diffinio a'r wybodaeth actiwaraid.
- Mae angen darparu eglurhad ar yr amserlen a gofynion cymeradwyaeth cynhyrchu Datganiad o Gyfrifon Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r Adroddiad Blynyddol.
- Gofynnodd un ymateb a fydd y gyfundrefn archwilio ar gyfer cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn dal yr un peth neu a ellid ei gohirio i fodloni'r amserlen adrodd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol, a gyhoeddir erbyn 1 Rhagfyr.

Tanlinellodd dau ymateb gan gyrrff proffesiynol y gallai'r cynnig i ddileu'r gofyniad i gynnwys datganiadau cyfrifyddu cronfeydd pensiwn o gyfrifon awdurdodau gweinyddu arwain yn anfwriadol at ddileu'r gofyniad i gyfrifon cronfeydd pensiwn fod yn destun archwilio. Byddai hyn yn arwain at arddel dull gweithredu gwahanol i'r hyn a arddelir yn Lloegr a'r Alban.

Dywedodd yr ymatebion ei bod yn hanfodol bod datganiadau ariannol cronfeydd pensiwn yr awdurdod lleol yn destun sicrwydd archwilio a barn archwilio ar wahân. Awgrymodd y cyrrff y gallai fod angen mecanwaith deddfwriaethol newydd i sicrhau bod Datganiadau Ariannol Cronfeydd Pensiwn yn Adroddiad Blynyddol Cronfeydd Pensiwn yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru gyda barn archwilio ar wahân.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried a nodi'r pryderon a godwyd yn ystod y'r ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai dileu cyfrifon y Gronfa Bensiwn o'r datganiad o gyfrifona pheri mai adroddiad blynyddol y gronfa bensiwn fydd y prif lwybr adrodd ar gyfer cyfrifon y gronfa bensiwn:

- yn dileu dyblygu rhwng y cyfrifon un endid a'r gronfa bensiwn:
- yn adlewyrchu atebolrwydd ehangach y gronfa bensiwn i'w haelodau, y tu hwnt i atebolrwydd yr awdurdod gweinyddu:
- yn gyson ag adrodd ar gronfeydd pensiwn o fewn LGPS yr Alban a'r sector preifat lle'r adroddiad blynyddol yw'r unig lwybr adrodd ar gyfer cyfrifon y gronfa bensiwn:

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd gofyn i gronfa bensiwn barhau i gael ei gyfrifo a'i archwilio'n ddigonol

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd deddfwriaeth yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i'r gronfa bensiwn gael ei harchwilio'n ddigonol. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried darparu eglurder mewn canllawiau mewn perthynas â'r mater hwn.

**Cwestiwn 3:** *O ran y rhwymedigaeth i gyhoeddi hysbysiad trwy eu hysbysebu, a ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad i gyrrff perthnasol mwy gyhoeddi hysbysiad o'r fath mewn un neu ragor o bapurau newydd lleol gyda gofyniad i arddangos hysbysiad mewn o leiaf un man amlwg yn ardal y corff perthnasol mwy?*

Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. Roedd un yn anghytuno â'r angen i arddangos yr hysbysiad mewn un man/man mwy amlwg gan fod y mwyafrif o unigolion yn cael mynediad trwy'r Rhyngrwyd.

Nid oedd un cyngor tref o blaid y cynnig. Mae o'r farn bod gan bapurau newydd lleol rôl bwysig yn y gymuned leol ac yn credu ei bod yn bwysig cefnogi busnesau lleol.

Roedd un ymateb o'r farn ei bod yn briodol i'r hysbysiad gael ei roi ar wefannau cyrff perthnasol mwy ac i osod copi mewn o leiaf un man amlwg.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Caiff y Rheoliadau i ddisodli'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau mewn papur newydd lleol eu gwneud fel y maent wedi'u ymgynghori.

### ***Unrhyw sylwadau eraill***

Awgrymodd un ymateb mai un o ganlyniadau'r cynnydd yn y defnydd o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn fyddai o bosibl bod y cyfnod o 20 niwrnod i'r cyhoedd archwilio'r cyfrifon yn cael ei leihau.

Awgrymodd un ymateb ddiwygiad i eiriad Rheoliad 28(1) o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud ag archwiliad eithriadol. Maent yn awgrymu dileu'r cyfeiriad at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gorchymyn archwilydd i gynnal archwiliad eithriadol. Awgrymir ei ddisodli gan y ffaith bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal archwiliad eithriadol, sy'n adlewyrchu'n fwy cywir bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal archwiliad eithriadol fel archwilydd statudol cyrff llywodraeth leol.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hawl etholwyr i gael mynediad i'r datganiad o gyfrifon yn egwyddor sefydledig a buddiol. Er hynny, rydym yn nodi bod llawer mwy o fecanweithiau bellach i etholwyr arolygu a dal cyrff cyhoeddus lleol i gyfrif. Rydym felly'n bwriadu ystyried hawliau archwilio cyhoeddus yn y dyfodol pan fydd yr amserlenni newydd yn ennill eu plwyf.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â'r diwygiad a awgrymir a fydd yn adlewyrchu'n gywirach rôl AGW sy'n cynnal archwiliad eithriadol. Caiff y rheoliadau eu diwygio yn unol â hynny.

## 4. Rhestr o Ymatebwyr

Daeth ymatebion i law oddi wrth y cyrff canlynol.

### **Awdurdodau Lleol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Cyngor Gwynedd  
Cyngor Sir Fynwy  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot  
Cyngor Sir Powys  
Cyngor Sir Penfro  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

### **Cynghorau Tref a Chymuned**

Cyngor Tref Abergele  
Cyngor Cymuned Langstone  
Cyngor Tref Nant-y-glo a Blaenau  
Cyngor Tref Penarth

### **Eraill**

Cyfoeth Naturiol Cymru  
Swyddfa Archwilio Cymru  
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth

## 5. Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu diwygio a gosod y rheoliadau er mwyn iddynt ddod i rym mewn pryd am y flwyddyn ariannol 2017-18.